## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (TRECASTELL, POWYS I HALFWAY, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Trecastell a Halfway, ym Mhowys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd sirol ym Maes Gwyn, Llywel ym Mhowys hyd at Ffin Sirol Powys/Sir Gaerfyrddin ym Mhont Wen, ger Halfway yn Sir Gaerfyrddin.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o ben gorllewinol y darn o'r ffordd sydd ar gau yw mynd ar yr A40 tua'r gorllewin i Lanymddyfri; yr A483 tua'r gogledd-ddwyrain i Lanfair-ym-Muallt; yr A470 tua'r de i Aberhonddu a'r A40 tua'r gorllewin hyd at ben dwyreiniol y darn o'r ffordd sydd ar gau. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 9 Mehefin 2025. Disgwylir i'r gwaharddiad dros dro fod yn weithredol yn ysbeidiol fel a ganlyn: 9 Mehefin 2025 i 15 Mehefin 2025 – 19:00 o'r gloch i 07:00 o'r gloch; ac o 16 Mehefin 2025 i 20 Mehefin 2025 – 07:00 o'r gloch i 20:00 o'r gloch, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://www.llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A40 TRUNK ROAD (TRECASTLE, POWYS TO HALFWAY, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Trecastle and Halfway, in Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the trunk road that extends from its junction with the county road at Maes-Gwyn, Llywel in Powys to the Powys/Carmarthensire County Boundary at Pont Wen, near Halfway in Carmarthenshire.

The alternative route for eastbound traffic from the western extent of the closure is via the A40 westbound to Llandovery; the A483 northeastbound to Builth Wells; the A470 southbound to Brecon and the A40 westbound to the eastern extent of the closure. Vice versa for westbound traffic.

The Order will come into force on 9 June 2025. The temporary prohibition is expected to operate intermittently as follows: 9 June 2025 to 15 June 2025 – 19:00 hours to 07:00 hours; and from 16 June 2025 to 20 June 2025 – 07:00 hours to 20:00 hours, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the periods specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled, or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be given before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government